

# PWYLLGOR CRONFA DATBLYGU CYNALIADWY

20 Mai 2020

Yn bresennol: Cynghorydd M James (Cadeirydd)  
Cynghorydd K Doolin, Dr R Plummer, Cynghorydd M Williams,  
Cynghorydd S Yelland; Ms S Green, Mr P Howe (Cyngor Sir  
Penfro) a Ms C Marmara (Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol  
Sir Benfro).

[Ymunodd Dr M Havard â'r cyfarfod yn dilyn ystyried y Cofnodion (gweler Cofnod 4) a chyrhaeddodd Mr I Thomas, Planed, adeg ystyried y diweddariad ar y Gronfa Datblygu Cynaliadwy.]

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 11.30am)

## 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

## 2. Datgan Buddiannau

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

## 3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2020 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2020.

## 4. Gair o groeso

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mrs J Morgan, y Swyddog Grantiau a Chyllido, oedd wedi cymryd drosodd y cyfrifoldeb am y Gronfa Datblygu Cynaliadwy.

## NODWYD.

## 5. Diweddariad ar y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (SDF)

Roedd yr adroddiad oedd gerbron y Pwyllgor yn rhoi diweddariad ar y ceisiadau a gymeradwywyd yn flaenorol ac yn amlinellu'r un cais a wnaed i'r gronfa ers y cyfarfod blaenorol.

Dywedwyd bod y gwaith o weinyddu'r gronfa o ddydd i ddydd wedi dychwelyd i'r Awdurdod ar y 1<sup>af</sup> o Ebrill 2020 yn dilyn cyfnod o 15 mis pan oedd PLANED yn gweinyddu'r gronfa. Byddai'r Awdurdod yn awr yn adolygu'r trefniadau cyfredol o weinyddu'r gronfa SDF ac yn paratoi adroddiad adolygu i'r Aelodau ei ystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Dyweddod y Swyddog Grantiau a Chyllido bod cyfanswm o £100,000 wedi'i ddyrannu i'r gronfa am y flwyddyn ariannol 2020/21. Roedd yr Awdurdod wedi neilltuo rhyw £5k ar gyfer prosiectau "Bach Gwyrdd" a redir drwy PAVS, felly petai'r prosiect oedd gerbron y Pwyllgor y diwrnod hwnnw yn cael ei gymeradwyo, byddai hynny yn gadael £75,000 ar ôl ar gyfer prosiectau eraill.

Gan groesawu'r Swyddog, holodd un Aelod am effaith y feirws Covid-19 ar y prosiectau presennol ac am y modd y byddai'r Awdurdod yn ymdrin ag unrhyw lithriant o ran yr hawliadau. Atebodd y Swyddogion bod sawl prosiect wedi cysylltu â hwy, ac y byddai diweddariad ar y rhain yn cael ei gyflwyno gerbron y cyfarfod nesaf. Holodd Aelod arall a fyddai tan-wariant y Gronfa o 2019/20 yn cael ei gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol gyfredol neu ei glustnodi ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. Atebodd y Rheolwr Cyllid bod yr arian wedi'i ddychwelyd i gronfa wrth gefn yr Awdurdod. Fodd bynnag roedd swm o £30k o dan-wariant mewn blynyddoedd blaenorol wedi'i roi mewn cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi ac y gellid defnyddio'r cyllid hwn petai'r Pwyllgor yn dymuno ariannu prosiectau teilwng sy'n uwch na'r gyllideb am y flwyddyn gyfredol.

Yn olaf dywedodd Ms Marmara bod prosiect Grant Bach Gwyrdd a gyflawnir gan Mencap yng Ngardd Furiog Ystafbwill ar stop ar hyn o bryd, ond heblaw am hynny bod y prosiect ar y cyfan yn mynd rhagddo yn hwylus.

## **NODWYD.**

### **6. Eithrio'r Cyhoedd**

**PENDERFYNWYD** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

### **7. Ceisiadau am gyllid o dan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy**

Ystyriodd y Pwyllgor un cais newydd am gyllid o dan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Ystyriwyd y cais yn fanwl yn erbyn meini prawf asesu'r gronfa, yn dilyn cyflwyniad byr gan ymgeiswyr y prosiect. Atgoffwyd yr Aelodau bod y cais oedd wedi'i gynnwys ar yr agenda y diwrnod hwnnw yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif ac na ddylid felly ei rannu ymhellach na'i ddsbarthu.

<b>Cyfeirnod</b>	<b>Enw'r Prosiect</b>	<b>Cyflwyniad gan</b>	<b>Sefydliad</b>
SDF/2020/7	The Pembrokeshire Remakery	Nicky Middleton-Jones Stephen Merrill	The Pembrokeshire Remakery CIC

Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor mai Aelodau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol fydd yn gwneud y penderfyniadau yn ôl cylch gorchwyl y Pwyllgor, gan gymryd barn yr Aelodau Ymgynghorol hynny oedd yn bresennol i ystyriaeth.

Yn dilyn trafodaethau **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais rhif SDF/2020/7 am y rhesymau canlynol:

Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylid gofyn am fwy o gymorth gan PAVS o ran Llywodraethu'r CIC. Roeddent yn anfoddog bod y prosiect yn ddibynnol ar arian grant a bod y grant yn mynd i barhau, a hefyd yn barnu nad oedd digon o eglurder ar y ffurflen gais ynglŷn â cherrig milltir a ffrydiau cyllido dros y 12 mis nesaf. Awgrymwyd petai'r cais yn cael ei ddatblygu ymhellach, gan gymryd yr adborth gan y Pwyllgor i ystyriaeth, y byddent yn hapus i ail-ystyried cais diwygiedig.